TGAU ADRODDIADAU ARHOLWYR

CYMRAEG AIL IAITH

HAF 2015

© WJEC CBAC Cyf.

Mae gwybodaeth am ffiniau graddau'r pwnc hwn ar gael ar wefan gyhoeddus CBAC fel a ganlyn: https://www.wjecservices.co.uk/MarkToUMS/default.aspx?l=en

Dadansoddiad o'r Canlyniadau Ar-lein

Mae CBAC yn darparu gwybodaeth i ganolfannau arholiadau ar wefan ddiogel CBAC. Cyfyngir y ddarpariaeth hon i staff mewn canolfannau yn unig. Y Swyddog Arholiadau yn y ganolfan sy'n rhoi'r caniatâd i'r staff yn y ganolfan gyrchu'r wefan hon.

Adroddiad Ystadegol Blynyddol

Mae'r Adroddiad Ystadegol blynyddol (a gyhoeddir yn ystod ail hanner Tymor yr Hydref) yn rhoi canlyniadau cyffredinol pob arholiad y mae CBAC yn ei weinyddu.

Uned	Tudalen
1	1
2	8
3	12
4	15

UNED 1

Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd

HAF 2015

Prif Arholwr: Trefor Lewis

Erbyn hyn mae arholiad Uned 1 wedi ennill ei blwyf ac ar y cyfan mae athrawon yn paratoi eu disgyblion yn llwyddiannus ar gyfer yr amrywiaeth tasgau a geir yn yr uned. Fodd bynnag, mae ychydig o dasgau lle y gall llawer o athrawon wella eu darpariaeth ar gyfer eu disgyblion. Gellir gweld enghreifftiau ar wefan Adolygu Arholiadau Ar-lein a ddarperir gan CBAC.

Mae rhai canolfannau o hyd yn cael trafferth gyda gofynion ar gyfer darparu sgriptiau i'w sganio ar gyfer eu marcio ar-lein. Felly dyma ail adrodd y canllawiau priodol.

1. Dylai ymgeiswyr ysgrifennu eu hymatebion mewn inc neu feiro du. Mae hyn yn sicrhau y bydd y copi o'r sganiwr yn glir.
2. Rhaid ysgrifennu'r ymatebion o fewn y gofod a ddarperir ar gyfer pob cwestiwn oherwydd nid yw'r sganiwr yn copïo y tu allan i'r gofod hwn.
3. Os oes angen cywiro rhywbeth dylid rhoi llinell drwyddo a'i ail ysgrifennu o fewn y gofod ar gyfer ysgrifennu neu mewn llyfryn ar wahân.
4. Dylai llawysgrifen ymgeiswyr fod yn daclus a chlir.
5. Os nad oes digon o le i ysgrifennu ymatebion dylid parhau mewn llyfryn ar wahân gyda rhif y cwestiwn a'r israniadau wedi'u nodi yn glir.

Darllen ac Ysgrifennu

Ar y cyfan cafwyd ymatebion pwrpasol ac addas gan y mwyafrif llethol gan ystyried bod ymgeiswyr y Cwrs Byr a'r Cwrs Llawn yn sefyll yr Uned hon. Mae'n drist, fodd bynnag, bod canran digon sylweddol o ymgeiswyr yr Haen Sylfaenol yn gwneud fawr ddim o ymdrech i ymateb i'r ddwy elfen (Darllen ac Ysgrifennu) o gwbl. Hefyd mae'n gwbl annerbyniol bod canran weddol uchel, er wedi eu cofrestru, yn penderfynu peidio gwneud unrhyw ymdrech o gwbl i ymateb i'r tasgau.

1. Darllen – 15 marc. (12 marc darllen, 3 marc ymateb yn ysgrifenedig i ddarllen) Cwestiwn Darllen yw hwn ond hefyd gwobrwyir yr ymgeiswyr am gywirdeb wrth iddynt ymateb yn ysgrifenedig ar ffurf paragraff. Ar y cyfan cafwyd ymatebion digon llwyddiannus, gyda chanran uchel o'r ymgeiswyr yn ennill dros 10 o farciau.

(i) Y dasg gyntaf, am 3 marc, oedd ticio 3 llun i ddangos dealltwriaeth o 3 pheth oedd yn angenrheidiol ar gyfer taith gerdded i godi arian ar gyfer Eisteddfod Penmynydd. Ar y cyfan llwyddodd canran uchel iawn i wneud hyn yn llwyddiannus. Yn sicr roedd y mwyafrif llethol yn gyfarwydd â geirfa megis esgidiau cerdded, dillad glaw, brechdanau a diod o ddŵr. Eleni eto dywed yr arholwyr nad oedd yr ymgeiswyr yn rhoi digon o sylw i'r lluniau ac yn tueddu i dicio lluniau heb ystyried y dewisiadau yn drylwyr.

© WJEC CBAC Cyf.

(ii) Mae'r ail dasg yn fwy uchelgeisiol, sef ysgrifennu paragraff sy'n cynnwys gwybodaeth benodol o'r daflen a ddarllenwyd. Dyfarnwyd 9 marc am gyflwyno 9 ffaith benodol yn gyfathrebol gywir ac yna 3 marc am gywirdeb gramadegol yn y paragraff. Er mwyn ennill marciau am y cynnwys roedd rhaid i'r wybodaeth fod yn gywir a diamwys e.e.

Dyddiad: Mai 16 = 1 marc; Mai yn unig = 0.
Dyfarnwyd hyd at 3 marc am gyfathrebu llwyddiannus ac ymdrech dda i ddefnyddio brawddegau llawn yn gywir. Ni ddyfarnwyd marciau iaith lle nad oedd ymdrech i ysgrifennu mewn brawddegau nac ychwaith lle roedd ymgeiswyr yn ceisio copïo popeth fel ag yr oedd yn y darn darllen. Eleni cafwyd ymdrech deg gan y mwyafrif llethol i ymateb yn gryno gan gynnwys y naw ffaith yn hytrach na thrio rhoi popeth o'r darn i mewn.

I godi safonau dylai ymgeiswyr
(a) wirio eu bod wedi cynnwys y wybodaeth angenrheidiol trwy dicio'r gofynion sydd yn y cwestiwn.
(b) ysgrifennu mewn brawddegau llawn gan ddethol y wybodaeth angenrheidiol i ateb y cwestiwn.
(c) peidio bodloni ar gopïo'r darn yn ei gyfanrwydd.

2. Ysgrifennu. 10 marc (5 cynnwys 5 mynegiant)
Y dasg yw ysgrifennu ymatebion i ddau destun sylfaenol o Gyd-destun A, sef
1. siopa
2. chwaraeon

Dyfarnwyd 5 marc am gyflwyno 5 ffaith yn ddealladwy am y ddau destun a 5 marc arall am ddefnyddio cystrawennau yn gywir. Rhoddir 2 farc am ddefnyddio cystrawen rheswm yn gywir. Felly i gael y 5 marc gellir cael 3 cystrawen wahanol gywir ac 1 cystrawen rheswm neu 5 cystrawen gywir heb gynnwys rheswm.

Mae'r cwestiwn yn sicrhau bod angen defnyddio 5 cystrawen wahanol er mwyn ateb y cwestiwn yn llwyddiannus. Felly o ran dyfarnu marciau iaith mae'r pwyslais ar ddefnyddio brawddegau sylfaenol yn gywir gan anwybyddu manion treiglo a sillafu.

Y camgymeriadau mwyaf amlwg i'w hosgoi yw llithriadau megis -
Dw i ddim hoffi, achos mae dda, hepgor y ferf ar ddechrau'r frawddeg – siop Debenhams yn dda.
Hefyd dechrau brawddegau gyda 'rydych chi' yn lle 'rydw i' gan efelychu'r pwynt bwled yn y cwestiwn.

I godi safonau dylai ymgeiswyr
(a) sicrhau eu bod yn gallu defnyddio cystrawennau creiddiol yn gywir.
(b) sicrhau eu bod yn cynnwys o leiaf 5 ffaith yn ddealladwy.
(c) ystyried beth mae'r ymadrodd yn y pwynt bwled yn ei ddweud cyn defnyddio'r gystrawen honno. Y pwynt bwled oedd – siopau rydych chi'n hoffi. Pam? Roedd y gweiniaid wedyn yn dechrau eu hymatebion gyda 'rydych chi' ac felly ni wobrwywyd y pwynt fel ffaith gyfathrebol ddealladwy chwaith.

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

3. (Sylfaenol) Cwestiwn 1 (Uwch)

Cyfweliad â Matthew Rhys oedd y dasg ddarllen eleni.

30 marc. (24 marc am ddealltwriaeth o'r cynnwys ac ymateb yn gryno yn y proffil, 6 marc am ddealltwriaeth ac ymateb ar ffurf brawddegau yn y 3ydd person)

Mae'r dasg yn apelio at ymgeiswyr y ddwy haen ac mae'n braf gweld bod mwyafrif ymgeiswyr yr Haen Sylfaenol yn gallu dangos dealltwriaeth dda o'r hanner cyntaf. Yr ail dasg oedd ysgrifennu dwy frawddeg yn y 3ydd person yn rhoi dwy ffaith am beth roedd Matthew yn ei ddweud yn y cyfweliad am Gymru a siarad Cymraeg. Dyfarnwyd 6 marc am yr adran hon sy'n asesu ymateb ysgrifenedig i ddealltwriaeth o wybodaeth benodol o'r darn darllen. Felly 3 marc yr un am ddwy frawddeg gywir yn y 3ydd person. (3 x 2 = 6 marc). Roedd rhaid i'r ffeithiau fod yn gywir cyn y gellid dyfarnu marc o gwbl.

Brawddegau oedd yn cael 3 marc:
Mae e'n hoffi helpu'r eisteddfod.
Mae Cymru a siarad Cymraeg yn bwysig iawn i Matthew Rhys.
Mae Matthew yn hoffi gwneud rhaglenni ar S4C.
Mae ei ffrind Ioan Gruffudd ac e yn helpu i godi arian ar gyfer elusennau (yng Nghymru).
Dyfarnwyd 2 farc am frawddeg lle ceid ymdrech deg i ddefnyddio'r 3ydd person ond oedd yn cynnwys camgymeriad bach.
Brawddegau 2 farc:
Mae e hoffi helpu pethau Cymraeg.
Mae siarad Cymraeg pwysig iawn i Matthew.

Ni ddyfarnwyd marciau am frawddegau:
(a) lle nad oedd ymdrech i ddefnyddio'r 3ydd person mewn brawddeg.
(b) lle nad oedd y wybodaeth yn y frawddeg yn gywir.
(c) lle defnyddid geiriau Saesneg.
(ch) lle roedd yr ymgeisydd yn ceisio dyfynnu o'r darn e.e. mae Mathew yn dweud 'rydw i bob amser yn hoffi gwneud rhaglenni ar S4C'.

I godi safonau dylai ymgeiswyr
(a) ystyried yn fanwl pa wybodaeth sydd ei hangen i ymateb yn gywir yn y proffil.
(b) sicrhau eu bod yn ateb pob adran ac isadran yn y proffil.
(c) dethol y wybodaeth gywir ac osgoi copïo atebion a pharagraffau cyfan.
(ch) darllen yr ateb ac ystyried a yw'n gwneud synnwyr.

I godi safonau yn yr ail ran
(a) Mae angen hyfforddi'r ymgeiswyr i ysgrifennu'n gywir yn y 3ydd person. Gall y dasg fod yn syml iawn ar ôl deall y cynnwys.
Weithiau does ond angen newid person y ferf - rydw i'n > mae e'n , roeddwn i'n > roedd e'n ayyb.
Wrth farcio, dywed yr arholwyr ei bod yn gwbl amlwg bod rhai canolfannau'n paratoi eu hymgeiswyr yn fanwl - gan fod y mwyafrif yn cael marc o 4 neu'n uwch a bod canolfannau eraill yn anwybyddu'r dasg hon – gwelwyd bod eu hymgeiswyr yn ddieithriad yn cael marciau isel iawn allan o 6.
(b) Dylid tynnu sylw'r disgyblion at ryw'r person yn y cyfweliad er mwyn iddynt ddefnyddio'r rhagenw cywir yn eu brawddegau.
(c) Rhaid i'r ymgeiswyr gofio bod y rhan hon yn asesu dealltwriaeth yn ogystal â'r gallu i ysgrifennu'n gywir yn y 3ydd person. Felly rhaid i gynnwys y brawddegau fod yn berthnasol (h.y. beth mae Matthew Rhys yn ei ddweud am Gymru a Chymraeg yn y cyfweliad hwn).

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

4. (Sylfaenol) Cwestiwn 2 (Uwch).
Ysgrifennu 20 marc (10 cynnwys 10 mynegiant).

Y dasg oedd ysgrifennu stori i gyd-fynd â chyfres o luniau. Roedd y cyd-destunau'n gyfarwydd i ymgeiswyr y ddwy haen. Mae'r lluniau yn rhoi sail i'r ymgeiswyr ar gyfer ysgrifennu stori gydlynys ac mae'r canllawiau yn gofyn am o leiaf 3 brawddeg ar bob llun.

Cynnwys. 10 marc.
Fel llynedd, dyfarnwyd 2 farc cynnwys am bob llun sef 1 marc yr un am y ddwy frawddeg gyfathrebol destunol orau oedd yn adrodd y stori yn y llun. Y gair allweddol yma yw brawddegau, a disgwylir i'r ymgeiswyr wneud ymdrech deg i ddefnyddio brawddegau cyn y gellir gwobrwyo marciau ar gyfer y naratif.

Mynegiant. 10 marc.
Gwobrwyir
(a) y gallu i gyfathrebu'n ystyrlon gan wneud ymdrech deg i ddefnyddio brawddegau. Mae'r elfen hon yn hanfodol cyn gellir gwobrwyo marciau cynnwys.
(b) y gallu i amrywio patrwm y frawddeg i bwrpas e.e. am chwarter wedi saith mae/ roedd/ aeth Huw a Gwen ar y trên i Sain Ffagan. Ar y trên maen nhw'n / roedden nhw'n yfed coffi, darllen cylchgrawn a gwrando ar gerddoriaeth.
(c) y gallu i ddefnyddio'r ferf ac amser y ferf yn briodol.
(ch) y gallu i ddefnyddio cystrawen ffurfiol ar gyfer naratif.
(d) y gallu i ysgrifennu deialog yn ddiddorol a chywir.
(dd) geirfa addas sy'n cyfrannu at gyfathrebu ystyrlon llwyddiannus.
(e) bydd y geiriau a geir gyda phob llun yn gymorth i'r ymgeiswyr a gwobrwyir y gallu i'w defnyddio'n synhwyrol.

Cafwyd gan y goreuon:
Ymatebion cynhwysfawr a diddorol ac roeddent yn llwyddo i greu stori ddiddorol gan ddefnyddio'r lluniau fel fframwaith. Ar y cyfan, roedd yr ymgeiswyr hyn yn cadw at ofynion y dasg o ran hyd ac nid oeddent yn treulio gormod o amser ar y dasg. Roedd yr arholwyr yn canmol y defnydd o'r gorffennol a'r cysondeb gydag amser y ferf. Gwelwyd mwy o ddefnydd o ddeialog eleni i fywiogi'r naratif.

Llwyddodd yr ymgeiswyr canolig i ymateb yn llawn i'r gofynion gan ysgrifennu tua 3 brawddeg am bob llun. Ar y cyfan roeddent yn cadw at y disgwyliadwy ond roeddent yn llwyddo i ennill marciau megis 6/7/8 am eu cynnwys.

Gweiniaid.
Llwyddodd canran dda o'r rhain i ennill marciau gweddol am y cynnwys, ond fel arfer roedd eu marc mynegiant yn isel iawn. Gwendidau cystrawennol oedd yn eu llesteirio fwy na dim oherwydd roedd hi'n amlwg bod ganddynt eirfa eithaf da am bynciau megis yr amser, teithio, bwyta, siopa ac arian.

O ran cystrawen, y prif wendidau oedd hepgor y ferf e.e. yn Llanfawr y trên i mewn am saith o'r gloch / tŷ yn 300 oed/ trên yn cyrraedd mewn awr yn Sain Ffagan. Rhaid cofio bod angen brawddegau cyfathrebol sy'n cynnwys berf er mwyn ennill marciau cynnwys yn ogystal â mynegiant, wrth gwrs.

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

I godi safonau dylai ymgeiswyr

(a) Ymgyfarwyddo ag ysgrifennu stori am gyfres o luniau sy'n adrodd stori gan gynnwys berf ym mhob brawddeg.

(b) Dylai'r gweiniaid ganolbwyntio ar ysgrifennu brawddegau creiddiol sylfaenol ar bob llun a chreu deialog syml.

(c) Dylai ymgeiswyr canolig ganolbwyntio ar wella cytundeb terfyniad y ferf â'r goddrych.

3. Uwch. Darllen 30 marc. (24 Darllen, 6 ymateb yn ysgrifenedig i ddarllen)

Darllen dwy erthygl oedd y dasg a osodwyd. Gofynnwyd i'r ymgeiswyr ddangos dealltwriaeth trwy gwblhau gridiau oedd yn gofyn am wybodaeth benodol am destunau o Gyd-destun A sef Gwyliau, Gwaith rhan-amser a Siopa.

Mae'r gofod sydd ar gael ar gyfer yr atebion yn dangos mai atebion byr sydd eu hangen, ac eleni eto roedd y darnau darllen wedi'u lleoli'n fwy cyfleus gyda'r dasg oddi tanynt ac felly gobeithio yn hwyluso gwaith yr ymgeiswyr.

Yr adran fwyaf trafferthus yn ôl arholwyr oedd 'gwaith rhan-amser Susan' oedd yn trafod oedran lle roedd gwaith rhan-amser yn beth da a ddim yn beth da. Roedd yr ymgeiswyr yn tueddu i gymysgu 'dan 16 oed ' a 'tros 16 oed'

(ii) Ymateb i ddarllen. 6 marc.
Roedd cyfle yma i ddewis y pwynt gorau a'r pwynt doedden nhw ddim yn hoffi yn y ddau ddarn a rhoi eu rhesymau personol dros hynny.
Mae hi'n bwysig bod yr ymgeisydd yn dweud yn glir at ba bwynt y mae'n cyfeirio gan gynnwys rheswm personol da, sydd wedi ei fynegi'n glir a chywir, i gael y 3 marc.
Rhoddwyd 2 farc am ateb oedd yn cynnwys camgymeriad bach ond oedd ar y cyfan yn dangos lefel dda o gywirdeb.
e.e. atebion 2 / 3 marc
Dw i'n anghytuno cant y cant gyda Phillip a dw i'n meddwl bod gwyliau antur yn anhygoel achos dw i'n dwli ar ddringo. (3 marc)
Yn fy marn i mae gwyliau ar y traeth yn wych, dw i'n cytuno efo Philip achos dw i'n hoffi syrffio. (3 marc)
Dw i'n meddwl pwynt Philip ydy'r gorau am siopa yn y ddinas achos mae siopau mawr yn ddiflas mae gormod o bethau ydy yno. (2 farc)
Dw i'n anghytuno gyda'r pwynt am gwyliau pabell yn dda achos yn anffodus mae tywydd Cymru wlyb. (2 farc)

I godi safonau dylai ymgeiswyr

(a) beidio copïo brawddegau cyfan gan obeithio cynnwys yr ateb.

(b) ailddarllen yr ateb i weld a yw'n gwneud synnwyr.

(c) cofio nad yw'r ffeithiau sydd eu hangen o angenrheidrwydd yn dilyn yr un drefn â'r cwestiwn.

(ch) yn rhan ii sicrhau bod eu hatebion yn gwneud synnwyr a'u bod yn dangos dealltwriaeth o'r pwyntiau yn y darn.

e.e. Rydw i'n cytuno gyda Philip bod gwyliau antur yn wych achos rydw i'n hoffi canŵio a cerdded (= 0). Yma mae'r wybodaeth yn anghywir - nid yw Philip yn hoffi gwyliau antur.

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

4. Haen Uwch. 20 marc. (cynnwys 10, mynegiant 10)

Roedd y tri thestun yn ddigon poblogaidd a chafwyd ymatebion rhagorol o ran cynnwys a chywirdeb gan y goreuon.

(i) ‘Mae pobl ifanc yn poeni gormod am ffasiwn. Mae hyn yn achosi llawer o broblemau yn yr ysgolion ac yn y gymdeithas. Ydych chi’n cytuno? Pam? Testun poblogaidd iawn lle roedd cyfle i roi dwy ochr y ddadl yn gryno a dod i gasgliad. Ar y cyfan, cafwyd ymatebion pwrpasol, ynghyd â syniadau gwreiddiol ac aeddfed gan y goreuon. Cafwyd enghreifftiau o broblemau fel bwlio a hyd yn oed dwyn o siopau er mwyn cadw i fyny gyda’r ffasiwn. Hefyd roedd rhai ymgeiswyr yn anghytuno gyda’r gosodiad ac yn dweud bod modd gwisgo’n ffasiynol heb wario llawer o arian.

(ii) Mae gan Gymru nifer o sêr enwog. Maen nhw’n gwneud llawer o bethau i helpu pobl eraill ac elusennau eraill. Mae Matthew Rhys yn enghraifft dda. Ydych chi’n cytuno? Pam?

Roedd cyfle yma i ddefnyddio peth o’r wybodaeth a ddarllenwyd yng nghwestiwn 1 ac yna ymestyn ar hyn trwy sôn am enwogion eraill a’u gwaith da yn helpu eraill. Yn ôl yr arholwyr prif wendid y canolig oedd ymdrin â Matthew Rhys yn llwyddiannus ac yna ond ychwanegu ffaith neu ddwy am un gŵr enwog arall megis Tom Jones.

(iii) Mae’n warthus bod rhaid i lawer o bobl ifanc symud o’u hardal achos does dim gwaith iddyn nhw ar ôl gadael yr ysgol a’r coleg. Ydych chi’n cytuno? Sut hoffech chi newid hyn?

Dyma’r testun lleiaf poblogaidd o ddigon. Y duedd ymysg y canolig oedd gorddibynnu ar yr hyn roeddent wedi dysgu am waith rhan-amser. Gan y goreuon cafwyd atebion cynhwysfawr oedd yntau yn cytuno neu'n anghytuno â’r gosodiad gan gynnwys digon o dystiolaeth i brofi eu pwyntiau.
O ran cynnwys roeddem yn edrych am:
(a) ymatebion diddorol a chymwys ynghyd â rhesymau lle'n briodol;
(b) barn bendant a synhwyrol;
(c) dilyniant rhesymegol i'r syniadau a'r farn;
(ch) ymdriniaeth ddiddorol a chynhwysfawr o'r testun;
(d) ymdrech i fod yn uchelgeisiol o ran syniadau ac ymatebion.

Gan y goreuon cafwyd ymdriniaeth hyderus, syniadau clir a diddorol a thriniaeth aeddfed ac uchelgeisiol o fewn yr amser oedd ar gael i ateb y cwestiwn hwn.
O ran mynegiant roeddem yn edrych am:
(a) y gallu i gyfleu syniadau a barn yn llwyddiannus;
(b) y gallu i amrywio patrwm y frawddeg i bwrpas;
(c) geirfa addas a chymwys i ddelio â'r testun;
(ch) cywirdeb ac ymdrech i ymgyrraedd at gysondeb o ran amserau'r ferf;
(d) ymdrech i greu naws ac awyrgylch priodol trwy ddefnyddio idiomau, cymariaethau a.y.b. ac efallai elfen o hiwmor;
(dd) ymdrech i argyhoeddi a pherswadio ynglŷn â barn a syniadau.

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

I godi safonau dylai ymgeiswyr canolig eu gallu

(a) geisio codi safon cywirdeb eu cystrawennau sylfaenol, gan osgoi camgymeriadau megis: 'fy mrawd yn cytuno'n llwyr gyda fi' (dim berf), 'mae rhy o bobl yn cael esgidiau chwaraeon', 'teimlaf fy ffrind bod mae Tom Jones ydy enghraifft dda'.

(b) sicrhau eu bod yn ateb gofynion y cwestiwn e.e. rhai yn (iii) yn ysgrifennu erthygl gyfan am waith rhan-amser a fawr ddim ymdrech i'w gymhwyso i ateb y cwestiwn.

(c) sicrhau eu bod yn cadw digon o amser ar gyfer gwneud cyfiawnder â'r cwestiwn olaf hwn.

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

Uned 2

Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd

HAF 2015

Prif Arholwr: Dewi Lewis

Mae tasgau llafar y cwrs Cymraeg Ail Iaith wedi ymsefydlu bellach, gyda'r mwyafrif o ganolfannau ac athrawon yn ymwybodol o'r hyn a ddisgwylir. Roedd y safon wedi codi unwaith eto. Cafwyd rhai problemau fel arfer ond nid oedd cynifer ohonynt eleni. Eto'i gyd, basai'n fuddiol i bob athro bori drwy adroddiadau'r gorffennol er mwyn cael eu hatgoffa o broblemau sydd yn bosibl. Rhaid derbyn cyngor o ble bynnag y daw ac mae llawer iawn o gynnwys adroddiadau blaenorol Cymraeg Ail Iaith, yr un mor berthnasol yn 2015.

Un peth sy'n achosi gofid mawr yw mai canran gymharol fechan o'r ymgeiswyr a saif dasgau Uned 2 sy'n mynd ymlaen i sefyll arholiad Uned 3 y flwyddyn ganlynol. Mewn geiriau eraill, mae mwyafrif sylweddol o'r ymgeiswyr yn astudio'r Cwrs Byr, a'r Cwrs Byr yn unig. Mae hyn yn tanseilio statws y Gymraeg mewn canolfannau ac yn di-brisio gwerth y Gymraeg fel testun i'w astudio. Mae hyn eisoes yn cael effaith ar y niferoedd sydd yn mynd ymlaen i astudio'r testun hyd at lefel A ac hefyd ar y niferoedd o fyfyrwyr prifysgol sydd yn astudio i fod yn athrawon Cymraeg ail iaith.

Braf medru dweud bod nifer o ganolfannau a feirniadwyd y llynedd wedi dysgu o'u camgymeriadau ac wedi cynhyrchu gwaith o safon llawer uwch eleni. Ar y llaw arall, cafwyd ambell enghraifft lle roedd adran wedi colli arweinydd profiadol ac athrawon newydd, llai profiadol yn cymryd at yr awennau. Dyma ble mae'n bwysig bod athrawon profiadol yn rhannu eu harbenigedd gydag eraill mewn adran yn arbennig cyn gadael. Mae hyn yn digwydd yn y mwyafrif o ganolfannau ond nid ym mhob canolfan bob amser.

Tasg 1 – Y Cyflwyniad Unigol

Roedd rhaid i'r cyflwyniadau fod yn seiliedig ar un o'r testunau canlynol:

- Sêr o Gymru;
- Gwyliau;
- Chwaraeon;
- Fi fy hunan;
- Gwaith elusennol / rhan-amser;
- Digwyddiad arbennig.

Ar wahân i 'Gwaith elusennol / rhan-amser' defnyddiwyd yr holl destunau. 'Sêr o Gymru', 'Chwaraeon' a 'Fi fy hunan' oedd y dewisiadau mwyaf poblogaidd. Erbyn hyn mae canolfannau wedi sylweddoli ei bod hi'n bosibl i adlewyrchu gwaith ymchwil wrth siarad am 'Fi fy hunan'. Cafwyd prawf helaeth o waith ymchwil wrth i ymgeiswyr, er enghraifft, siarad am eu diddordebau megis marchogaeth, rygbi, pêl droed, siopa ac ati. Ar y llaw arall cafwyd nifer o gyflwyniadau ar 'Fi fy hunan' oedd yn sylfaenol iawn a difflach heb unrhyw arwydd o waith ymchwil. Wrth gwrs, mae testunau fel 'Sêr o Gymru' a 'Chwaraeon' yn cynnig ei hunan i waith ymchwil a chafwyd ffeithiau diddorol am enwogion megis Tom Jones, Gareth Bale, Rhys Ifans, Leigh Halfpenny a llawer mwy. Doeddwn i ddim yn sylweddoli tan i fi wrando ar rai o'r ymgeiswyr bod Leigh Halfpenny wedi mynychu ysgol gynradd Gymraeg sef Ysgol Pontybrenin yng Ngorseinon. Roedd hi'n amlwg bod llawer iawn o ymgeiswyr wedi treulio llawer o amser yn twrio am wybodaeth a theimlid eu bod wedi mwynhau gwneud hynny.

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

Roedd hi'n amlwg hefyd bod llawer wedi treulio oriau maith yn paratoi eu 'pwyntiau bwled' i'w helpu gyda'r dasg, ond yn anffodus teimlid bod rhai yn treulio gormod o amser ar hyn. Weithiau roedd y pwyntiau bwled, a fwriedir i roi strwythur i'r Cyflwyniad (a'r sgyrsiau a'r dasg ysgrifennu yn nhasg 2), yn troi i fod yn rywbeth braidd yn chwerthinllyd. Cofier mai dim ond 30 gair **neu** 30 llun **neu** gyfuniad o 30 gair a lluniau a ganiateir. Mewn nifer o achosion cafwyd pedair neu bump tudalen o luniau. Mewn achosion eraill cafwyd ymgeiswyr yn defnyddio llythyren gyntaf pob gair a ddefnyddiwyd. Nid yw hyn yn dderbyniol.

Fel y dwedwyd eisoes, roedd safon y gwaith yn ganmoladwy iawn gyda mwyafrif yr ymgeiswyr yn ateb gofynion y cynllun marcio ar y lefelau perthnasol. Cafwyd y cyflwyniadau diddorol, uchelgeisiol arferol gan y goreuon wrth iddynt gyfathrebu'n hyderus tu hwnt gan ddefnyddio geirfa eang a chyfoethog, ystod eang ac amrywiol o ymadroddion, cwestiynau, patrymau brawddegol, cystrawennau Cymraeg a ffurfiau berfol yn gyson gywir h.y. yn ateb gofynion y cynllun marcio ar y lefel uchaf. Braf medru dweud i'r ymgeiswyr ar y marciau isaf, ag eithrio lleiafrif bychan, wneud rhywfaint o ymdrech i gyfathrebu er mae'n drist sylweddoli bod rhai ohonynt wedi dysgu cyn lleied ar ôl pedair neu bum mlynedd o astudio'r iaith yn y sector uwchradd.

Roedd yr amseru'n foddhaol iawn eleni er bod rhai yn dal i fod yn rhy fyr. Cofier y disgwylir i ymgeiswyr o safon gradd G-D siarad am tua 2-3 munud a rhai o safon C-A* am tua 3-5 munud.

Un gwendid blynyddol arall mewn rhai canolfannau oedd **gorddibyniant** ar y cof. Mae llawer o'r disgyblion gorau yn dysgu ar gof – does dim o'i le yn hynny – mae'n rhan hanfodol o ddysgu. Yr hyn sy'n bwysig yw eu bod yn argyhoeddi'r safonwyr eu bod yn deall beth maen nhw'n ei ddweud. Weithiau roedd y naturioldeb yn mynd ar goll oherwydd y gor-baratoi. Ambell waith roedd y camynganu, cambwysleisio a'r camseibiannu'n awgrymu'n gryf nad oedd pawb bob amser yn deall popeth roeddent yn ei ddweud (h.y. beth roeddent wedi ei ddysgu ar gof). Mewn rhai achosion roedd y safonwyr yn methu'n lân a deall beth roedd rhai ymgeiswyr y ceisio'i ddweud, hyd yn oed ar ôl gwrando arnynt tua tair neu bedair gwaith. Camynganwyd geiriau cyffredin a ddefnyddir o ddydd i ddydd, geiriau megis 'dysgu' (dysg**w**), 'chwaer' (chwêr), 'Sul' (Syl), 'pump' (p**y**mp), 'byw' (bee..w). 'gyfun' (gy**ffy**n), 'Ebrill' (Ebri**l**), Lloegr' (llo llegr), 'ei chalon' (ei shalon) a llawer mwy. Weithiau siaradwyd fesul gair ac hyd yn oed fesul sillaf. Aeth 'chwaraeon' yn 'chwarae .....on' a 'fel siocled' yn 'fel... shok .....let'.

Roedd safon y recordio'n dda ar y cyfan er bod rhai ychydig yn dawel. Fodd bynnag, cafwyd mwy o broblemau eleni gyda safonwyr yn methu gwrando ar ddisgiau oherwydd y modd y recordiwyd arnynt a bu rhaid gofyn am sampl arall. Rhaid pledio ar i ganolfannau sicrhau ei bod hi'n bosib i wrando ar eu recordiadau ar beiriannau cyffredin yn ogystal ag ar y cyfrifiadur.

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

Tasg 2 – Y Sgwrs sefyllfa (tasg pâr / grŵp o 3)

Y Dasg Lafar

Cofier mai tasg pâr neu grŵp o 3 ydy hon. Eleni cafwyd grwpiau o 4 ymgeisydd weithiau. Disgwylir i barau siarad am rhwng 4 a 5 munud (ymgeiswyr o safon G-D) a rhwng 5 a 7 munud (ymgeiswyr o safon C-A*). Disgwylir i grwpiau siarad am rhwng 6 a 7 munud (safon G-D) a rhwng 7 a 10 munud (safon C-A*). Ni chadwyd at y terfynau amser cystal ag a wnaethpwyd yn y cyflwyniadau unigol.

O ran tasgau, gosodwyd 5 opsiwn gan CBAC yn seiliedig ar y themâu 'Chwaraeon', 'Cymru', 'Ardal', 'Digwyddiad arbennig' a 'Ffasiwn'. Braf nodi bod rhai canolfannau wedi defnyddio o leiaf 3 opsiwn gan adael i'r ymgeiswyr ddewis testunau oedd yn apelio atyn nhw. Roedd hawl gan ganolfannau addasu'r tasgau neu gynnig tasgau gwahanol ar yr un themâu – ond dim ond ar ôl derbyn caniatâd CBAC i wneud hynny. Defnyddiwyd y 5 opsiwn yn helaeth a nid syndod bod cynifer o ganolfannau, yn arbennig yn y de-ddwyrain wedi dewis siarad am 'Digwyddiad arbennig, sef digwyddiad i godi arian tuag at eisteddfod yr Urdd.

Fel gyda'r cyflwyniadau, roedd safon y gwaith yn uwch eleni gan fod y mwyafrif o ganolfannau wedi cynefino â'r tasgau erbyn hyn. Cafwyd enghreifftiau o waith arbennig gan nifer o ganolfannau, gyda'r ymgeiswyr gorau, fel arfer, yn trin a thrafod yn hyderus ac yn ymestynnol a'r athrawon yn cyfrannu'n ddeallus ag yn effeithiol gan ymyrryd yn adeiladol yn ôl yr angen**.** Cyflwynwyd cynigion y 2/3 aelod gyda brwdfrydedd ac arddeliad a thrafodwyd a mynegwyd barn aeddfed am rinweddau a diffygion y gwahanol gynigion. Cafwyd enghreifftiau gwych o barau a grwpiau'n trafod yn ddeheuig gan siarad yn hollol rhwydd a naturiol heb ddibynnu'n ormodol ar y cof o gwbl. Ymhlith y goreuon roedd y cydadweithio rhwng y disgyblion yn ganmoladwy iawn, a chafwyd trafodaethau aeddfed a synhwyrol ynghyd â'r gallu i fynegi barn bendant. Defnyddiwyd pwyntiau bwled y gwahanol dasgau'n gelfydd iawn gan rai canolfannau gyda'r ymgeiswyr yn eu defnyddio'n synhwyrol wrth gyflwyno gwybodaeth am eu cynigion ac hefyd wrth holi eu partner/iaid am eu cynigion hwythau. Mewn geiriau eraill, fe'u defnyddiwyd fel math o restr wirio i sicrhau eu bod yn cyflawni gofynion y dasg. Gan y goreuon, defnyddiwyd ystod eang o amserau'r ferf, o batrymau ieithyddol ac ati, gyda'r ymgeiswyr yn dangos eu bod yn medru ar iaith glir a chywir ar y lefel uchaf. Y nod, wrth gwrs, yw ateb gofynion y cynllun marcio ar eu lefel arbennig nhw. Yn anffodus, fodd bynnag, mewn rhai canolfannau roedd y cynnwys a'r mynegiant braidd yn siomedig ac yn rhy elfennol i gyfiawnhau'r marciau a roddwyd gan y ganolfan. Roedd nifer hefyd yn rhy fyr, weithiau dim ond dwy neu dair munud gan grŵp o dri oedd ar farciau'n cyfateb i'r graddau uchaf yn ôl eu canolfannau. Roedd eraill yn llawer rhy hir. Gwell hynny na bod yn rhy fyr, wrth gwrs, ond mae'r terfynau amser a roddir gan CBAC yn ddigon.

Ar y cyfan roedd y gweinyddu'n dda. Derbyniwyd y gwaith yn brydlon ac yn drefnus gan y mwyafrif. Diolch i'r canolfannau am hynny. Mae un apêl rhaid ei gwneud unwaith eto. Mewn rhai canolfannau roedd hi'n anodd iawn dweud pwy oedd yn siarad. Roedd safoni gwaith un ganolfan, lle gwrandawyd ar dros 80 ymgeisydd, yn hunllef. Nid oedd enwau'r holl ymgeiswyr yn cael eu llefaru'n ddigon clir gan yr athrawon, ni recordiwyd eu rhifau arholiad o gwbl ar y cryno ddisgiau, cwta iawn oedd cyflwyniadau'r ymgeiswyr (dim ond pethau fel 'hylo!' neu 'Siân ydw i', a nid oedd y ffurflenni'n dangos pwy oedd partneriaid yr ymgeiswyr a dargedwyd (roedd ffurflen unigol gan bawb). Disgwylir i'r athrawon roi enwau a rhifau arholiad pob ymgeisydd ymhob pâr/grŵp ar ddechrau'r recordiad. Hefyd dylai pob ymgeisydd gyflwyno eu hunain ar y dechrau. Mae canllawiau CBAC yn gofyn am 4 neu 5 brawddeg gan bob ymgeisydd fel bod y safonwyr yn cynefino â'r gwahanol leisiau ac yn gwybod pwy yw pwy.

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

Y Dasg Ysgrifennu

Ar y cyfan roedd safon y gwaith ysgrifenedig yn ganmoladwy iawn. Gyda'r goreuon, yr hyn gafwyd, mwy neu lai, oedd addasu cynnwys y dasg lafar, a gwnaethpwyd hyn yn effeithiol iawn. Roedd cynnwys a safon yr iaith ysgrifenedig yn adleisio'r hyn gafwyd ar lafar ac yn adlewyrchu gofynion y cynllun marcio ar y lefel arbennig hwnnw.
O safbwynt cynnwys cafwyd amrywiaeth eang ac aeddfed o ran syniadau a barn, cynllun ac adeiladwaith pendant a gwybodaeth gynhwysfawr. Cafwyd cyfraniadau estynedig, mynegi barn yn rhwydd ac yn hyderus gan ymresymu'n berthnasol, tystiolaeth i gefnogi barn, naws ac awyrgylch pwrpasol ac ati. Roedd y goreuon yma'n cyfathrebu'n hyderus gan ddefnyddio geirfa gyfoethog, ystod eang ac amrywiol o ymadroddion, cwestiynau a phatrymau brawddegol. Defnyddiwyd cystrawennau Cymraeg a ffurfiau berfol yn gyson gywir ac roedd elfen gref o gywirdeb yn y gwaith. Wrth gwrs, yr hyn ddisgwylir ar unrhyw lefel yw bod safon y gwaith, y cynnwys a'r mynegiant, yn adlewyrchu gofynion y cynllun marcio ar y lefel arbennig hwnnw. Ni fu llawer iawn o broblemau o'r safbwynt hwn eleni.

Un o brif ofyniadau'r dasg ysgrifennu, wrth gwrs, yw ei bod yn deillio o'r dasg lafar. Ni chafwyd cynifer o broblemau gyda'r elfen hon eleni. Gosodwyd dwy dasg ysgrifenedig gan CBAC ar gyfer pob tasg lafar (bwriedir y dasg gyntaf ar gyfer yr ymgeiswyr llai galluog a'r llall ar gyfer y goreuon). Prin iawn oedd y canolfannau na ddefnyddiodd dasgau gosodedig CBAC eleni. Roedd rhai o'r ymgeiswyr gorau wedi defnyddio'r dasg gyntaf ond wedi cyflwyno gwaith oedd yn haeddu marciau uchel.

I grynhoi, rhaid llongyfarch y mwyafrif o'r canolfannau am berfformiadau'r ymgeiswyr yn Uned 2 eleni. Piti y bydd cynifer ohonynt yn ennill cymhwyster Cwrs Byr yn unig.

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

UNED 3

Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd

HAF 2015

Prif Arholwr: Dewi Lewis

YR ARHOLIAD LLAFAR / DARLLEN – Y Dasg Pâr/Grŵp

Braf medru dweud i'r arholiad fod yn llwyddiant eleni eto. Mae llawer iawn a ddywedwyd am y sgwrs sefyllfa yn Uned 2 - boed yn rhinweddau neu'n ffaeleddau, yn wir am arholiad Uned 3 yn ogystal ond bydd rhaid ailadrodd rhyw ychydig er mwyn pwysleisio rhai pethau.

Y swigod gyda'u darnau darllen yw cam (i) sef man cychwyn yr arholiad erbyn hyn, wrth gwrs. Yn y mwyafrif o achosion, defnyddiodd yr ymgeiswyr a'r athrawon y darnau darllen mewn ffordd gadarnhaol iawn. Rhaid dangos dealltwriaeth o gynnwys y darnau, wrth gwrs, er mwyn sicrhau'r marc darllen, a gwnaethpwyd hyn yn ddigon boddhaol gan y mwyafrif o ganolfannau. Unwaith eto defnyddiwyd cynnwys y darnau fel cymorth i'r ymgeiswyr i gynnal y sgyrsiau – yn rhoi gwybodaeth a syniadau iddynt y gellid eu defnyddio yn eu sgyrsiau ei hunain. Roedd hyn ym wir am ymgeiswyr ar y marciau isaf yn ogystal â'r goreuon. Roedd y darnau darllen yn cynnig geirfa a phatrymau brawddegol, yn ogystal â syniadau iddynt.

Braf medru dweud bod yr amseru, ar y cyfan, yn well eleni. Mae'n ymddangos bod y mwyafrif o athrawon wedi dilyn cyfarwyddiadau'r tabl isod a ymddangosodd yn adroddiad y llynedd:

Dylid dewis darnau darllen yn unol â'r canllawiau canlynol:

O safbwynt y marc 'darllen', i ennill marc o:

8 **dylid dangos dealltwriaeth lawn o ddarn darllen D a chyffwrdd â darnau CH a C;**

7 **dylid dangos dealltwriaeth lawn o ddarn darllen CH â chyffwrdd â darn C;**

6 **dylid dangos dealltwriaeth eithaf llawn o ddarn darllen CH a chyffwrdd â darn C;**

5 **dylid dangos dealltwriaeth lawn o ddarn darllen C;**

4 **dylid dangos dealltwriaeth lawn o ddarn darllen B a chyffwrdd â darn A;**

3 **dylid dangos dealltwriaeth eithaf llawn o ddarn darllen B a chyffwrdd â darn A;**

2 **dylid dangos dealltwriaeth lawn o ddarn darllen A;**

1 **dylid dangos dealltwriaeth o rai pwyntiau yn narn darllen A.**

'cyffwrdd â' = un pwynt yr un yn ddigon.

Cofier am y 2 farc 'iaith' hefyd.

Cofier nad oes angen i'r ymgeiswyr ddangos dealltwriaeth lawn o bob darn darllen. Fe aeth rhai o'r sgyrsiau'n hir iawn am i ymgeiswyr rhai canolfannau wneud hynny. Dylid dewis darnau sy'n cyfateb i allu'r gwahanol ymgeiswyr. Cofier hefyd nad dangos eu bod yn gallu darllen y darnau'n uchel yw'r nod ond dangos eu bod yn eu deall. Yn anffodus roedd yna leiafrif na ddangosodd dealltwriaeth o gwbl.

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

Fel mae bron pawb yn gwybod erbyn hyn, mae cam (i) yn cyfrannu, nid yn unig tuag at y marc 'darllen' ond hefyd, ynghyd â'r tri cham arall, tuag at y marc llafar.
Mae dau bwrpas i'r darnau darllen felly:

- rhoi cyfle i'r ymgeiswyr ddangos eu bod wedi deall y darnau darllen perthnasol.
- Rhoi symbyliad/au i'r ymgeiswyr i drin a thrafod y testun dan sylw gan ddilyn y canllawiau a roddir yng nghamau (ii), (iii) a (iv) yn ogystal a cham (i).

Cyflawnwyd y dangos dealltwriaeth yn dda gan y mwyafrif. Roedd y goreuon yn llwyddo i wneud hynny heb unrhyw gymorth o gwbl gan yr athrawon. Roedd angen mwy o gymorth ar y gweiniaid ac yn aml, roedd cyfraniadau'r athrawon yn allweddol i sicrhau bod yr ymgeiswyr yn ennill marc 'darllen' teilwng. Roedd cwestiynau syml fel 'Beth mae Sam yn ei ddweud am ei brofiad gwaith?' neu 'Wyt ti'n cytuno â Gareth?' yn ddigon effeithiol. Eto'i gyd cafwyd ambell athro/athrawes yn cyflwyno gwybodaeth o'r darnau darllen i'r ymgeiswyr yn hytrach na rhoi'r cyfle i'r ymgeiswyr i ddangos dealltwriaeth, ac ennill marciau 'darllen', drwy wneud hynny. Er enghraifft, cafwyd athrawon yn dweud pethau fel 'Mae Anwen yn dweud bod y penwythnos yn llawer gwell na dyddiau ysgol. Wyt ti'n cytuno?' Roedd y 'cytuno', wrth gwrs, yn rhan bwysig o'r elfen 'lafar' ond ni roddwyd cyfle i'r ymgeisydd 'ddangos dealltwriaeth' o'r darn hwnnw o'r deunydd symbylus am i'r athro wneud hynny drosto/drosti.

Roedd safon y gwaith yn ganmoladwy iawn yn y mwyafrif o ganolfannau. Cafwyd enghreifftiau o waith arbennig gan nifer fawr o ganolfannau, gyda'r ymgeiswyr gorau yn dangos dealltwriaeth lawn o'r darnau darllen symbylus, yn trin a thrafod y testunau dan sylw'n hyderus ac yn ymestynnol a'r athrawon yn cyfrannu'n ddeallus ag yn effeithiol gan ymyrryd yn adeiladol yn ôl yr angen.

Roedd y safon yn dda iawn ymhlith y goreuon a llwyddodd y gweiniaid i gynnal sgyrsiau mwy sylweddol nag arfer, yn bennaf am fod cynnwys y darnau darllen symbylus yn help iddynt, ac weithiau'n rhoi syniadau i'r athrawon hefyd. Trafodwyd a mynegwyd barn aeddfed ar amrywiaeth eang o destunau. Cafwyd enghreifftiau di-ri' o barau a grwpiau'n trafod yn ddeheuig gan siarad yn hollol rhwydd a naturiol heb ddibynnu'n ormodol ar y cof o gwbl. Ymhlith y goreuon roedd y cydadweithio rhwng y disgyblion yn ganmoladwy iawn, a chafwyd trafodaethau aeddfed a synhwyrol ynghyd â'r gallu i fynegi barn bendant. Defnyddiwyd cynnwys y darnau darllen symbylus yn effeithiol dros ben a chafwyd cyfeiriadau yn ôl atynt drwy gydol llawer iawn o'r trafodaethau. Roedd hyn yn cadarnhau bod yr ymgeiswyr wedi deall y darnau darllen symbylus ond hefyd roedd yn ychwanegu at naturioldeb y sgyrsiau ac yn profi fod llawer o ymgeiswyr yn medru siarad yn reit naturiol heb ddibynnu'n ormodol ar y cof. Defnyddiwyd ystod eang o amserau'r ferf, o batrymau ieithyddol ac ati, gyda'r ymgeiswyr yn dangos eu bod yn medru ar iaith glir a chywir ar y lefel uchaf.

Fodd bynnag, yn y Sylfaenol ac weithiau yn yr Uwch mewn llawer o ganolfannau roedd tueddiad i or-ddibynnu ar gwestiynau'r athro/athrawes yn hytrach nag holi ac ateb ei gilydd a chafwyd fawr ddim o'r cydadweithio sy'n rhan bwysig o'r cynllun marcio. Ar y llaw arall, mewn rhai canolfannau doedd dim digon o holi gan yr athro/athrawes pan oedd ei angen, ac roedd hyn yn tueddu i lesteirio tipyn ar naturioldeb y sgwrs. Gan ail adrodd y bregeth flynyddol, **mae'n bwysig cofio ei bod hi'n ddyletswydd ar yr athro / athrawes i sicrhau bod yr ymgeiswyr yn ceisio cyflawni holl ofynion y dasg gan eu harwain, os oes angen, drwy'r 4 cam.** Hefyd dylid ceisio sicrhau eu bod yn ateb gofynion y cynllun marcio ar eu lefelau arbennig nhw.

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

Mae sut y dewisir ymgeiswyr y sampl wedi newid yn ystod y blynyddoedd diweddar. Y cyfrifiadur sydd bellach yn dewis y samplau. Nid yw'r cyfrifiadur mor ddynol ag athrawon wrth gwrs a dydy e ddim yn adnabod y disgyblion fel mae'r athrawon. Er enghraifft mae athrawon yn gwybod am nam llafaredd disgyblion. Mae athrawon yn ymwybodol o nerfusrwydd rhai disgyblion. Mae'r athrawon yn ymwybodol o amgylchiadau arbennig fel profedigaeth. Mae gan athrawon syniad go lew am ba ddisgyblion sy'n siŵr o dangyflawni ar y dydd. Mae'r cyfrifiadur yn gallu gwneud dewisiadau annoeth weithiau. Os teimlir y gallai ymgeiswyr eraill gael cam oherwydd rhyw ddewis arbennig yna esboniwch mewn nodyn i'r safonwr neu i'r swyddog pwnc.

Fel yn y gorffennol, dilynwyd y cyfarwyddiadau gweinyddol gan y mwyafrif o ganolfannau gyda phopeth yn drefnus ac yn daclus iawn. Diolch! Fodd bynnag, cafwyd yr eithriadau blynyddol – yr un canolfannau, fwy neu lai, o flwyddyn i flwyddyn, a'r un ffaeleddau yn ogystal. Nodir rhain yn adroddiadau unigol y canolfannau hynny felly ni fwriedir eu rhestru yma. Fodd bynnag, gofynnir yn garedig, fel yn Uned 2, i ganolfannau gyflwyno'r ymgeiswyr a'r tasgau ar ddechrau pob recordiad. Mae angen i bob ymgeisydd gyflwyno 4 neu 5 brawddeg ar ddechrau'r dasg – mae hyn yn hwyluso gwaith y safonwr ac yn help i adnabod y lleisiau gwahanol. Hefyd gellid annog yr ymgeiswyr i ddefnyddio enwau ei gilydd wrth iddynt sgyrsio.

I grynhoi, bu'r arholiad yn llwyddiannus iawn ar y cyfan. Llongyfarchiadau i'r ymgeiswyr, a diolch i'r athrawon am eu gwaith caled, cydwybodol ac effeithiol. Ni ymddiheurir am ail-adrodd yr hyn ddwedwyd mewn adroddiadau blaenorol: **'Nid yw ymdrechion diflino'r mwyafrif o athrawon Cymraeg Ail Iaith yn derbyn y clod haeddiannol mor aml ag y dylent'.**

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

UNED 4

Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd

HAF 2015

Prif Arholwr: Trefor Lewis

Ymateb cyffredinol yr arholwyr yw bod gofynion yr arholiad hwn yn y ddwy haen yn well ar gyfer eu hateb mewn awr o amser oherwydd bod peth cwtogi wedi ei wneud ar draws y papurau. Eto tystiolaeth yr arholwyr yw bod gwaith y goreuon o safon uchel iawn o ran dealltwriaeth, creadigrwydd a chywirdeb ac wrth gwrs mae hyn yn sylfaen dda iddynt barhau i astudio'r Gymraeg neu i'w defnyddio'n gymdeithasol neu ym myd gwaith. Gwyddom wrth gwrs bod ymgeiswyr Uned 4 yn dra gwahanol i ymgeiswyr Uned 1 oherwydd eu bod yn cael cymaint mwy o oriau dysgu ac felly'n cael mwy o gyfle i ddysgu hanfodion yr iaith o ran cystrawen, geirfa a chyd-destunau.

Fel y soniwyd ar ddechrau Uned 1, yn gyffredinol, mae rhaid canmol yr athrawon am baratoi eu disgyblion ar gyfer y tasgau ond mae tystiolaeth nad yw rhai ymgeiswyr yn sicr sut i ymateb i rai tasgau penodol. Tynnir sylw at y tasgau hyn yma ac ar wefan Adolygu Arholiad Ar-lein CBAC.

1. Darllen – 10 marc. (8 marc, ymateb yn ysgrifenedig i ddarllen 2 farc)
Y dasg yma ydy darllen llythyr o ysgol gynradd am ddathliad ac yna rhoi gwybodaeth benodol o'r llythyr mewn poster ar gyfer ei arddangos ar hysbysfwrdd yr ysgol. Mae'r dasg yn asesu dealltwriaeth o eirfa, ymadroddion a brawddegau sylfaenol a chawsom dystiolaeth bod y mwyafrif llethol wedi deall y llythyr yn llawn.

Y prif gamgymeriadau oedd:

- Anghofio nodi dyddiad yng Ngorffennaf.
- Rhoi brechdanau neu byrgyrs yn lle nodi'r ddau.
- Rhoi'r pris anghywir am y noson.

ii) Dyfarnwyd 2 farc am ymateb yn ddealladwy a synhwyrol i'r elfen hon. Derbyniwyd atebion cyfathrebol synhwyrol megis 'Dw i'n dod' a 'dw i'n un deg pedwar'.

I godi safonau dylai ymgeiswyr

(a) ddarllen y darnau'n ofalus er mwyn osgoi camgymeriadau e.e. gyda dyddiad y dathliad.

(b) sylwi ar ofynion yr ail ran gan ysgrifennu nodyn, e-bost neu lythyr i ymateb yn bersonol i ddarn darllen.

2. Ysgrifennu - 15 marc (8 marc cynnwys, 7 marc iaith)
Y dasg oedd ysgrifennu'n bersonol mewn brawddegau llawn ar destunau cyfarwydd ar gyfer gwefan yr ysgol.
Roedd y tri thestun – Yr Ysgol, Ffrindiau a Dydd Sadwrn yn gyfarwydd i'r ymgeiswyr, ond wrth gwrs roedd hi'n hanfodol eu bod yn ymateb trwy ysgrifennu am y meysydd penodol ym mhob testun. Gwendid y gweiniaid oedd ysgrifennu'n gyffredinol am Ffrindiau gan anwybyddu'r pwyntiau bwled oedd yn gofyn am bethau arbennig fel sut oeddent yn debyg neu wahanol i'w ffrindiau.

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

Dyfarnwyd 8 marc am gyflwyno 8 ffaith yn ddealladwy dros y tri darn ond roedd rhaid i bob ymgeisydd gyflwyno dwy ffaith am y tair adran i gael 8 marc cynnwys. Dyfarnwyd hyd at 7 marc am gystrawennau a ddefnyddiwyd yn gywir yn yr ymatebion. Gyda mynegiant, rhoddir 4 marc am ddefnyddio pedair cystrawen wahanol yn gywir a 3 marc am un gystrawen yn y Gorffennol / Amherffaith er mwyn ymateb i'r adran olaf - Beth wnaethoch chi ddydd Sadwrn diwethaf

Ar y cyfan, llwyddodd canran uchel i ymateb yn llwyddiannus i'r gofynion gan ddefnyddio'r amrywiaeth o gystrawennau. Eleni gwelwyd gwelliant sylweddol yn y defnydd o'r amser Gorffennol cryno a'r Amherffaith.

I godi safonau dylai ymgeiswyr
(a) sicrhau eu bod wedi ysgrifennu am y meysydd penodol o fewn pob testun.
(b) Gweiniaid – ymarfer ysgrifennu'n syml yn y Gorffennol e.e. es i, gwelais i, roeddwn i'n ayyb.
(c) ymarfer defnyddio'r gystrawen - ydy – enw fy ffrind ydy …
(ch) sicrhau eu bod yn gallu ysgrifennu'r amser yn gywir.

3. (Sylfaenol) 1 (Uwch) Darllen 20 marc (16 darllen, 4 deall ac ymateb yn ysgrifenedig)
Darllen dau ddyddiadur ar themâu cyfarwydd i bobl ifanc oedd y dasg a dangos dealltwriaeth trwy gwblhau tasgau llenwi grid. Ail ran y dasg yw ysgrifennu dwy frawddeg i ddweud a ydynt yn cytuno â Sally neu Mike am
(a) cadw'n ffit a heini a rhoi rheswm
(b) gwylio'r teledu a rhoi rheswm.

Gan fod y darnau hyn ar gyfer y ddwy haen a bod angen darllen manwl a dealltwriaeth weddol lawn o'r darnau i gwblhau'r tasgau'n llwyddiannus roedd hi'n anochel y byddai'r gweiniaid yn cael cryn drafferth gyda'r rhannau mwyaf cymhleth. Mae angen hyfforddi'r ymgeiswyr i gyd i ddarllen y darnau yn eu cyfanrwydd ac wedyn didoli'r wybodaeth berthnasol. Mae'r gweiniaid yn copïo darnau sy'n cynnwys geiriau sy'n debyg i'r testunau yn hytrach na didoli'r hyn sy'n berthnasol.

Mae'r ail ran yn achosi llawer mwy o broblemau. Mae'n rhaid i'r cynnwys fod yn gywir o ran gwybodaeth cyn y gellir dyfarnu marc am gywirdeb yr ymateb.
Dyma enghreifftiau gyda'r marc
Cadw'n ffit a heini - 2 farc.
Dw i'n cytuno efo Mike achos dw i'n hoffi beicio gyda fy nghariad.
Dw i'n cytuno gyda Sally achos mae ci Labrador gyda fi a dw i'n mynd am dro bob nos.

Elfen dda o gywirdeb – 1 marc.
Dw i'n cytuno gyda Mike fi yn cadw'n ffit ar beic ffordd.
Dw i'n anghytuno efo Mike mae'n gas beic gen i.

Yn yr enghreifftiau hyn, mae'r wybodaeth a gyflwynir yn anghywir – 0 marc.
Dw i'n cytuno gyda Mike achos mae beicio'n ddiflas.
Rydw i'n anghytuno gyda Sally mae hanes fy hoff bwnc.

© WJEC CBAC Cyf.

I godi safonau dylai ymgeiswyr

(a) sicrhau nad ydynt yn cymysgu rhwng Sally a Mike.
(b) darllen y dyddiadur i gyd cyn chwilio am y wybodaeth berthnasol mewn mwy nag un lle.
(c) dysgu ar y cof ymadroddion fel: dw i'n cytuno gyda…… achos……
(ch) cofio bod rhaid rhoi'r atebion yn y man cywir ac nid ceisio rhoi 2 ateb gyda'i gilydd.
(d) darllen yr ateb ar ôl ei ysgrifennu i sicrhau ei fod yn gyflawn e.e. cadw'n ffit a heini - fyny'r mynydd = 0 , cerdded i fyny'r mynydd = 1 marc

4. (Sylfaenol) Cwestiwn 2. (Uwch) Ysgrifennu 30 marc (15 cynnwys, 15 mynegiant)
Y dasg eleni oedd ysgrifennu ar dri thestun o gyd-destun B sef, Teulu, Technoleg ac Amser Hamdden. Mae'r marciau a roddir am bob testun yn ganllaw ynglŷn â hyd y paragraffau sydd eu hangen ar bob testun. Mae angen tynnu sylw ymgeiswyr at hyn oherwydd ysgrifennodd rhai ymgeiswyr da yn llawer rhy faith ar 'Amser Hamdden', ac efallai wedyn byddent wedi bod yn brin o ran amser ar gyfer cwestiwn 3 a 4.

(a) Teulu. Cafwyd ymatebion diddorol a chynhwysfawr iawn. Mae'r gystrawen gan/ gyda yn creu trafferthion i nifer, hyd yn oed ymgeiswyr da. 'Mae fy nheulu'n fawr, dw i'n cael dwy chwaer …..' Nid oes angen ond rhyw dair brawddeg yma i gael y marciau llawn.
(b) Technoleg. Mae'n amlwg bod y testun hwn yn apelio oherwydd roedd yr ymgeiswyr yn hoffi sôn am dechnoleg fodern o bob math.
(c) Amser Hamdden. Eto cafwyd ymatebion cynhwysfawr a diddorol gan y ddwy haen. Ar y cyfan hefyd llwyddodd y ddwy garfan i ymateb yn llawn gan ddefnyddio amseroedd y gorffennol yn gywir at ei gilydd.

I godi safonau dylai ymgeiswyr

(a) (canolig a gwan) - ganolbwyntio ar gystrawen sylfaenol y frawddeg a sicrhau bod berf ym mhob brawddeg.
(b) wrth ysgrifennu yn yr amser gorffennol osgoi pethau fel 'es i mynd', 'hwyliodd fi', 'bwytodd nhw'.
(c) dysgu'r gwahaniaeth rhwng cael a gan/ gen i. Camgymeriad cyson oedd - rydw i'n cael dau frawd.
(ch) (Haen Uwch) - ymarfer ysgrifennu yn yr amser Gorffennol gan ganolbwyntio ar gael cytundeb rhwng person y ferf a'r terfyniad e.e. camgymeriadau cyson a gafwyd oedd *bwytais e/ dawnsiodd i/ siaradais hi gyda fi.*
(d) wrth ail ddrafftio eu gwaith canolbwyntio ar y cymalau gan osgoi camgymeriadau megis 'bod mae'.

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

3. Haen Uwch. Darllen 20 marc (16 darllen, 4 ymateb i ddarllen yn ysgrifenedig)
Gan fod cryn lawer i'w gyflawni yn yr awr rydym yn dweud y glir mai atebion ar ffurf pwyntiau bwled sydd eu hangen. Mae llawer o hyd yn ysgrifennu eu hatebion ar ffurf brawddegau hir cyflawn. Yn sicr roedd y cwestiwn hwn yn gwahaniaethu'n llwyddiannus iawn. Roedd y goreuon yn dangos dealltwriaeth dda o'r erthygl ac yn rhoi atebion llawn e.e. (b) **anghofio** troi'r golau i ffwrdd. Llawer o'r canolig yn rhoi 'troi'r golau i ffwrdd'

(ii) (4 marc.)
Yn sicr mae eisiau annog ymgeiswyr i ddarllen y cyfarwyddiadau yn fanwl yn yr adran hon oherwydd mae'r hyn a ofynnir amdano yn newid o flwyddyn i flwyddyn.

(a) Rhaid ei gwneud yn glir at ba un rydych yn cyfeirio
(b) Mae angen cynnwys rheswm da i gael 2 farc.
(c) Rhaid cael cywirdeb cystrawennol i gael 2 farc.
(ch) Rhaid i'r wybodaeth fod yn gywir cyn gellir dyfarnu marciau.

I godi safonau dylai ymgeiswyr
(a) ysgrifennu ymatebion byr - pwyntiau bwled, pan fo'n dderbyniol.
(b) dangos dealltwriaeth trwy ddidoli'r pwyntiau ar gyfer ateb y cwestiwn yn hytrach na chopïo sawl llinell a gobeithio cynnwys yr ateb cywir.
(c) ymarfer rhan ii) gan ymateb i sefyllfaoedd tebyg.
(ch) ymarfer ffurfiau e.e. dylai/ mae rhaid/ er mwyn bod.

4. Haen Uwch. Ysgrifennu 30 marc. (cynnwys 15, mynegiant 15)
Ymateb i unrhyw un o dri chwestiwn digon heriol oedd y dasg yn y cwestiwn olaf hwn. Dewis i a iii oedd y mwyaf poblogaidd.
Roedd gan y goreuon syniadau aeddfed, barn glir a phendant a'r gallu i gyfleu hynny yn glir a diddorol. Roedd hi'n amlwg iddynt gael eu hyfforddi i gynllunio eu gwaith yn fanwl. Cafwyd paragraff agoriadol perthnasol a chlo yn crynhoi eu syniadau yn ddiddorol. Roedd safon y goreuon yn wirioneddol ardderchog ac yn adlewyrchu'r ddarpariaeth drylwyr a geir mewn ysgolion o ran amser cwricwlaidd ac adnoddau dysgu.

I godi safonau dylai ymgeiswyr
(a) wneud ymdrech deg i ateb y cwestiwn yn hytrach nag ysgrifennu ar destun maent yn gyfarwydd ag ef e.e. yn (i) roedd amryw yn ysgrifennu yn gyffredinol am beryglon ysmygu yn lle ateb y cwestiwn.
(b) ceisio cynllunio eu hatebion yn well, efallai gan fabwysiadu dull y goreuon o restru pethau fesul pwynt.
(c) codi safon cywirdeb eu gwaith drwy ail ddrafftio eu gwaith yn y gwersi a chanolbwyntio ar osgoi camgymeriadau e.e. dylai i/ dw i'n meddwl bod mae chwaraeon/ yn fy ardal pobl ifanc yn y parc yn ysmygu (dim berf).

CBAC
245 Rhodfa'r Gorllewin
Caerdydd CF5 2YX
Ffôn: 029 2026 5000
Ffacs: 029 2057 5994
E-bost: arholiadau@cbac.co.uk
gwefan: www.cbac.co.uk

© WJEC CBAC Cyf.